



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

Adroddiad Arolygu

Llys y Bryn



Llys Y Bryn, Heol Gelli, Llanelli, SA14 9AD



01554 758132

Dyddiad yr ymweliad arolygu /
Dyddiadau'r ymweliadau arolygu:

12/06/2025, 23/06/2025, 26/06/2025

Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

Gweithredir gan:

Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin

Math o Ofal:

Gwasanaeth Cartref Gofal

Gofal Heb Nyrsio i Oedolion

Darpariaeth ar gyfer:

Cartref gofal i oedolion - â gofal personol

Lleoedd cofrestredig:

45

Prif iaith/ieithoedd:

Cymraeg a Saesneg

Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant
Cymru:

Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn
diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl.

Graddau:



Llesiant

Da



Gofal a Chymorth

Da



Yr Amgylchedd

Da



Arweinyddiaeth a
Rheolaeth

Da

Crynodeb:

Cartref gofal preswyl yw hwn, wedi'i leoli yn Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Mae dwy ran i'r gwasanaeth, mae Llys y Bryn yn cynnig llety hirdymor ac mae Tŷ Pili Pala yn darparu llety tymor byr i baratoi pobl i'w ail-alluogi i ddychwelyd i'w cartref eu hunain.

Yn ystod yr arolygiad hwn, dyfarnwyd gradd 'Da' am Lesiant gan fod y bobl yn cael eu cynnwys mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrion, gofynnir am eu barn a'u hawgrymiadau a chânt eu gwerthfawrogi a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel. Dyfarnwyd gradd 'Da' am Ofal a Chymorth gan fod yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd yn cael eu cynnwys yn ei ofal. Mae gweithwyr iechyd a meddygol proffesiynol a gweithwyr proffesiynol allanol eraill yn cael eu cynnwys yn briodol yn nhrefniadau gofal y bobl pan fo angen. Dyfarnwyd gradd 'Da' am yr Amgylchedd gan fod y gwasanaeth yn ddiogel, yn gartrefol, ac mewn cyflwr da. Dyfarnwyd gradd 'Da' ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth gan fod y gwasanaeth yn cael ei arwain gan reolwr ac Unigolyn Cyfrifol sy'n cael eu parchu gan dîm o staff sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n ymroddedig.

Canfyddiadau:



Llesiant

Da

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth godi pryderon: gwnaethant ddweud wrthym *"I don't have any complaints, I'm enjoying myself. I would speak to [manager] or a carer if I have any complaints"* ac *"I would have no hesitation to raise a complaint if I had one with the manager or a carer"*. Mae'r Arolwg Cartref Gofal Blynyddol ar gyfer Llys y Bryn 2024 yn nodi bod pawb a ymatebodd yn gallu cael cymorth gan y staff pan fydd ei angen arnynt, maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth, ac yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon am y cartref neu'r staff. Caiff copi o weithdrefn gwyno Cyngor Sir Caerfyrddin ei ddarparu i'r bobl ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth a chaiff ei arddangos yn yr ardaloedd cymunedol.

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a chânt eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r bobl yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant am wneud hynny, yn dewis o amrywiaeth o opsiynau prydau a ble maent yn cael eu pryd; roedd hyn i'w weld yn ystod sesiwn arsylwi amser cinio. Dywedodd y bobl wrthym y darperir ar gyfer eu dewisiadau deietegol penodol. Dywedodd un person wrthym *"I can't eat pork, yesterday, the cook came to speak to me to see what alternative lunch I would like as pork was on the menu. They went out and bought chicken for me!"*. Caiff y bobl eu cynnwys wrth ddewis gweithgareddau ac wrth addurno a dewis dodrefn ar gyfer ardaloedd mewnol y gwasanaeth. Gofynnir hefyd am eu safbwyntiau a'u hawgrymiadau yn ystod ymweliadau a gynhelir gan yr Unigolyn Cyfrifol a thrwy arolygon ar gyfer Arolwg Cartref Gofal Blynyddol Llys y Bryn.

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ystyrllon sydd o fudd iddynt. Mae diddanwyr a chantorion yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Caiff dathliadau a digwyddiadau coffáu eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Roedd sesiwn Fingo yn cael ei chynnal yn ystod yr ymweliad arolygu ar gyfer grŵp o ddeg unigolyn oedd yn cael eu cefnogi gan ddau weithiwr gofal. Roedd pawb a oedd yn cymryd rhan yn cael cymorth da i ymuno waeth beth oedd eu galluoedd ac roeddent yn mwynhau eu hunain. Roedd enillydd bob gem yn cael cymeradwyaeth gan bawb a oedd yn bresennol. Yn ychwanegol, roedd albwm lluniau wedi'i leoli ger y brif fynedfa yn cynnwys nifer o ffotograffau o'r bobl yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau.



Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r darparwr yn asesu anghenion y bobl cyn eu derbyn yn drylwyr . Caiff gwybodaeth ddefnyddiol gan weithwyr proffesiynol ac eraill sy'n rhan o ofal a chymorth y bobl ei chasglu i helpu i roi gwybod os gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion pob unigolyn. Caiff y cynlluniau gofal eu llunio ar y cyd â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolydd lle bynnag y bo'n bosibl ac maent yn rhoi gwybodaeth dda am yr unigolyn. Fodd bynnag, mae angen mwy o fanylion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cryfhau'r cynlluniau gofal i roi digon o wybodaeth i'r gweithwyr gofal am anghenion gofal y person ac am sut yr hoffai i'w ofal gael ei ddarparu. Caiff y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg cysylltiedig eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Mae amrywiaeth o weithwyr meddygol, iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau gofal a chymorth y bobl pan fo angen. Caiff hyn ei ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio'n benodol ar annog y bobl i yfed digon a chânt amrywiaeth o ddiodydd poeth ac oer. Mae hydradu'n ddigonol yn cael ei gynnwys yng nghylchlythyr y gwasanaeth i'r bobl a'u hymwelwyr. Dywedodd gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym; *“This is an excellent home. The staff are very knowledgeable about the patients. Care is very good; [manager] is great and we have good communication between the home and the surgery. Staff follow clinical directions well and they do dressings when required. It feels homely here, there are no smells. I have no concerns”*. Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am y gofal maent yn ei gael gan gynnwys *“I am very happy in the home. All staff are wonderful and very kind”* a *“The carers are excellent – they earn their money; they work very hard”*.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r rheolwr a'r staff yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am unrhyw bryderon a chadw'r bobl yn ddiogel. Caiff ymarfer y staff ei ategu gan bolisiâu a gweithdrefnau sy'n hygyrch ac cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r darparwr yn cyflwyno atgyfeiriadau diogelu lle bo angen, gan gymryd rhan yn y prosesau a'r canlyniadau diogelu a dysgu oddi wrthynt er mwyn gwella'r gwasanaeth.



Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cynnwys cyfleusterau a chyfarpar sydd mewn cyflwr da. Mae nifer o lolfeydd ac ystafelloedd bwyta i'r bobl ddewis ble yr hoffent fwyta eu prydau. Maent yn hybiau i'r bobl gyfarfod a chymdeithasu ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae ardal gaffi ar gael, sy'n cael ei defnyddio'n achlysurol. Mae salon trin gwallt yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan driniwr gwallt sy'n ymweld. Mae cegin hefyd ar gael i'r bobl sy'n aros yn Nhŷ Pili Pala i ddysgu a / neu feithrin sgiliau byw bob dydd, i'w paratoi ar gyfer yr adeg pan fyddent yn dychwelyd i'w cartref eu hunain. Mae'r décor, y dodrefn a'r ffabrigau mewn cyflwr da ac yn lân. Mae hyn yn cyfrannu at greu amgylchedd cartrefol a chroesawgar i'r bobl ei fwynhau. Caiff y lluniau, y gwaith celf, a'r canllawiau gweladwy unigol eu harddangos yn y coridorau ac ar ddrysau ystafelloedd gwely i helpu'r bobl i symud o gwmpas yr ardaloedd cymunedol ac i'w hystafelloedd gwely. Caiff cyfarpar symud a chodi a chario a chyfarpar ymladd tân eu gwasanaethu'n rheolaidd. Caiff y cynhyrchion glanhau eu storio'n ddiogel mewn ystafell dan glo. Mae allanfeydd tân yn glir ac nid oes unrhyw beth yn eu ffordd.

Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'i haddurno'n dda ac yn lân. Mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau sydd o ddiddordeb ac sy'n bwysig iddynt gan gynnwys ffotograffau, lluniau, dodrefn ac ornamentau. Dywedodd un unigolyn wrthym *"I am very proud of my bedroom; I brought my furniture with me. This is my home now"*. Mae priodoldeb gwybodaeth bersonol sydd wedi'i harddangos ar flaen drysau ystafelloedd gwely'r bobl yn Nhŷ Pili Pala wedi'i drafod â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol wedi cael eu gwneud i deimlo'n fwy croesawgar gyda phlanhigion a lluniau. Mae'r toiledau cymunedol yn lân; fodd bynnag, nid yw'r dodrefn gwyn yn y toiledau (gan gynnwys seddi a chanllawiau) yn cefnogi'r bobl sy'n defnyddio'r cyfleusterau hyn a allai fod ganddynt namau ar eu golwg, yn llawn. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.

Mae'r gerddi Cymunedol yn Lllys y Bryn yn cynnig sawl ardal wahanol i'r bobl eistedd a chymdeithasu. Mae angen gwneud gwaith atgyweirio i do gasebo mawr ac mae angen chwynnu'r llwybrau mewn rhai manau, fel nad ydynt yn achosi perygl posibl o ddisgyn neu faglu i'r bobl. Mae'r dodrefn gardd yn rhy drwm a rhy fawr i'r bobl eu symud yn annibynnol; fodd bynnag, rydym wedi cael gwybod bod dodrefn gwahanol am gael ei ddarparu. Trafodwyd y pwyntiau hyn â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae mynedfa Tŷ Pili Pala yn groesawgar, gyda phlanhigion lliwgar mewn potiau.

Mae mesurau diogelwch effeithiol ar waith gan gynnwys gofyniad i bob ymwelydd lofnodi wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth yn ogystal â dangos ei fanylion adnabod.



Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Da

Mae'r bobl yn gallu cyflawni eu canlyniadau am fod gan y darparwr drefniadau sefydliadol, trefniadau llywodraethu, a threfniadau goruchwylio da ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cwblhau adroddiadau manwl bob chwarter ac adroddiadau ar Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Mae AGC wedi cael copïau o'r rhain. Mae systemau monitro ansawdd effeithiol gan gynnwys archwiliadau sy'n cael eu cynnal gan yr Unigolyn Cyfrifol, y rheolwr, a chynrychiolwyr y darparwr. Mae'r wybodaeth a gesglir o archwiliadau mewnol ac allanol yn cefnogi gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'r rheolwr ac mae ar gael yn hwylus i roi cymorth ac arweiniad yn ôl yr angen. Mae gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol gydberthynas broffesiynol a chefnogol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o fewn ei Ddatganiad o Ddiben ac yn sicrhau y caiff hysbysiadau eu cyflwyno mewn modd amserol i AGC os bydd digwyddiadau o bwys.

Mae'r tîm o staff yn gwerthfawrogi'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ganddynt. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym; *"I love coming to work, [manager] is great, very supportive"*, *"I love working here, it's really great. Really good management, how it should be!"* ac *"I have met [RI] regularly, she is very approachable and always speaks to staff and residents"*. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus yn codi pryder os byddai angen.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff sy'n meddu ar yr arbenigedd, y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â phroses recriwtio drylwyr ac mae'r holl wiriadau a chliriadau gofynnol ar waith cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Ar ôl cael eu recriwtio, mae'r gweithwyr gofal yn ymgymryd â chyfnod sefydlu manwl sydd wedi'i ategu gan raglen hyfforddiant a datblygiad parhaus. Caiff hyfforddiant craidd a hyfforddiant penodol eu cwblhau a chafodd hyn ei gadarnhau gan y staff ac wrth ddarllen matrices hyfforddiant y staff. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym; *"I have regular supervision and lots of training. I feel well equipped to do my role"* ac *"I feel well supported by the manager and seniors, the training we get is really good and varied"*. Mae gweithwyr gofal wedi'i cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Caiff y staff eu cefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r gweithwyr gofal yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau o ran rhoi gwybod am unrhyw bryderon diogelu.

Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.

Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw Hysbysuadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a phaidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.